Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 264

**Amseru:**

**Teitl: Arian ar gyfer y rhaglen Droseddwyr Ranbarthol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae'r bwrdd Trais yn Erbyn Menywod a Merched Rhanbarthol wedi cysylltu â'r CHTh i ofyn am gyfraniad tuag at y rhaglen droseddwyr ranbarthol. Roedd y CHTh wedi cyfrannu i'r bartneriaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a gofynnir iddo barhau â'r buddsoddiad hwn yn 22-23.
Sicrhaodd y buddsoddiad ar y cyd ar draws y bartneriaeth yn 2021-22 eu bod nhw fel rhanbarth wedi sicrhau cynnig cyson a hygyrch o safon uchel o ymyrraeth troseddwyr a oedd llawn mor hygyrch ym mhob ardal o'r rhanbarth. Yn unol â gwaith y Bartneriaeth i wella trefniadau comisiynu o gwmpas darpariaeth gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched, o fewn y flwyddyn ddiwethaf, maen nhw wedi gweithio ar ddatblygu dognau ariannu rhanbarthol posibl ar draws pob partner. Mae partneriaid strategol allweddol i gyd wedi cyfrannu yn awr tuag at ariannu'r prosiect, a gofynnwyd i'r CHTh gyfrannu 20% o'r gost, sef £19,850.

**Argymhelliad:**

**Cytuno i'r cyfraniad o 20% o'r gronfa wrth gefn ailhyfforddi gyrwyr ar gyfer y rhaglen droseddwyr ranbarthol a'i gwaith.**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 28/06/2022**